**Lee Waters AS/MS**
**Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth**
**Deputy Minister for Economy and Transport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1090
Ein cyf/Our ref LW/01047/20

Janet Finch-Saunders MS

Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

12 Ionawr 2021

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd ar ran y Pwyllgor Deisebau at Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ynglŷn â Deiseb P-05-1090 Diogelwch ar y Ffyrdd: Lleihau cyflymder cefnffordd yr A487 i 20mya drwy Benparcau, Aberystwyth. Mae'ch llythyr wedi cael ei anfon ymlaen ataf yn rhinwedd fy nghyfrifoldebau portffolio.

Mae gwella diogelwch ar y ffyrdd yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ac rydym yn gweithio'n barhaus gydag awdurdodau lleol, yr heddlu a phartneriaid eraill i nodi lleoliadau lle mae angen mesurau diogelwch ar y ffyrdd.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen 20mya wedi cwblhau eu gwaith ac wedi cyhoeddi eu hadroddiad. Rydym wedi derbyn holl argymhellion y Grŵp hwnnw ac mae'n hymateb, sy'n amlinellu sut y byddwn yn bwrw ymlaen â phob un ohonynt, i'w weld yma. Y bwriad yw dod â'r terfyn cyflymder safonol o 20mya i rym ym mis Ebrill 2023. Gellir ystyried gostwng y terfyn cyflymder presennol ar yr A487 drwy Benparcau wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo, ond bydd angen ei adolygu yn unol â'r meini prawf ar gyfer eithriadau a thrwy ymgynghori â'r gymuned dan arweiniad yr awdurdod lleol.

Estynnwyd gwahoddiad i awdurdodau lleol gymryd rhan mewn Astudiaethau Aneddiadau Peilot 20mya ac mae'r ceisiadau yn cael eu hasesu ar hyn o bryd. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach y mis hwn. Bydd awdurdodau lleol yn cael cymorth oddi wrth Trafnidiaeth Cymru a bydd cyllid yn cael ei roi i bob ymgeisydd a ddewiswyd i gymryd rhan.

I gyd-fynd â'r uchelgais o derfyn cyflymder safonol arfaethedig o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig bydd Rhaglen Monitro a Gwerthuso yn cael ei sefydlu fel rhan o'r prosiect er mwyn ystyried y canlyniadau. Bydd amrywiaeth o fetrigau'n cael eu cofnodi er mwyn cynnal asesiad cynhwysfawr o effeithiolrwydd yr ymyriad terfyn cyflymder 20mya, cyn gweithredu'r cyfyngiad safonol o 20mya yn genedlaethol ac yn yr hirdymor.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r terfynau cyflymder ar y rhwydwaith cefnffyrdd, gan ystyried data fel gwrthdrawiadau sydd wedi achosi anafiadau personol, geometreg y ffordd, a'r defnydd gan gerddwyr a beicwyr, yn unol â chanllawiau Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru. Ar sail y data cyfredol, nid oes gennym unrhyw gynigion i ostwng y terfyn cyflymder ar y rhan hon o'r ffordd ar hyn o bryd, ond byddwn yn parhau i fonitro'r angen am newid o'r fath.

Gan Bwyll, y Bartneriaeth Diogelwch ar y Ffyrdd, sy'n gyfrifol am orfodi terfynau cyflymder ac efallai y bydd preswylwyr am dynnu sylw at unrhyw bryderon am gyflymder traffig yn uniongyrchol drwy'r dudalen a ganlyn ar y we: https://gosafe.org/contact-us/community-concern/?lang=cy.

Yn gywir,



**Lee Waters AS/MS**
Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Deputy Minister for Economy and Transport